**Eitem ar yr Agenda: 4(i)**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion o gyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gynhaliwyd ddydd Llun 19eg Mawrth 2007 yn Neuadd y Sir, Rhuthun. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y bore.

**Presennol:**

| Cynghorydd | Cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| E C George (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | |
| P C Evans YH | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W E Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R D Peacock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| G Williams | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| D Clayton | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| R G Hampson | Cyngor Sir y Fflint |
| C Shone | Cyngor Sir y Fflint |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |
| N S Colbourne | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P M Shone | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); D Docx (Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyllid a Chaffael); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); W A Murphy (Uwch Reolwr Gweithrediadau); G Brandrick (Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth); D G Roberts (Rheolwr Prosiect y

System Dyletswydd Rhan Amser); M A Jones (Rheolwr Diogelwch Tân Cymunedol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

**1) Ymddiheuriadau**

| Cynghorydd | Cynrychioli |
|---|---|
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J Ovens | Cyngor Sir y Fflint |

**2) Hysbysiad o Faterion Brys**

Cynghorodd y Cadeirydd nad oedd eitemau wedi cael eu cyflwyno i unai y Clerc nag ef am ystyriaeth.

**3) Cyhoeddiadau**

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau canlynol:

i. Llongyfarchwyd y Prif Swyddog Tân ar dderbyn Medal Gwasanaeth Tân y Frenhines yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd. Dyfarnwyd y fedal mewn cydnabyddiaeth o'i ddyletswydd a'i gyfraniad i'r Gwasanaeth Tân ac Achub.
ii. Croesawyd y Cynghorydd C Shone yn ôl yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty a dymunwyd adferiad llwyr a buan iddo.
iii. Hysbyswyd yr aelodau fod yr Arolygwr Derek Cheetham o Heddlu Trafnidiaeth Prydain wedi dynodi ei ddymuniad i drosglwyddo diolch yr Heddlu Trafnidiaeth i bersonél y Gwasanaeth o orsafoedd tân Wrecsam a Johnstown am eu cymorth yn ystod trasiedi ddiweddar ar y rheilffordd yn Johnstown, lle collodd merch ifanc ei bywyd. Roedd yr Heddlu Trafnidiaeth yn dymuno cofnodi eu hedmygedd o'r modd roedd personél y Gwasanaeth wedi ymdrin gyda'r digwyddiad. Cynghorodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at bersonél y ddwy orsaf i ddiolch iddynt am eu hymdrechion.
iv. Hysbysodd yr aelodau am brosiect a drefnwyd gan Gyngor Gwynedd ac yr oedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rhan ohono o'r enw 'Pre Pass Plus'. Roedd y prosiect wedi ei anelu at yrrwyr ifanc ac yn datblygu sgiliau diogelwch ar y ffordd a gyrru'n ddiogel. Gobeithir y byddai ardaloedd eraill yn dilyn y fenter hon mewn amser.
v. Gofynnwyd i aelodau hysbysu'r Swyddog Cyswllt Aelodau os oedden nhw angen cyflenwad ychwanegol o gardiau busnes "Rhoi Pobl yn Gyntaf" yn cynnwys y rhif rhadffôn am archwiliadau diogelwch tân yn y cartref. Cynghorwyd hwy hefyd, er fod y cardiau busnes gwreiddiol roddwyd iddynt yn dangos rhif rhadffôn gwahanol i'r un ar yr ail fwndel, oedd yn

dangos y rhif Cymru gyfan lansiwyd yn ddiweddar, byddai galwyr fyddai'n deialu'r rhif gwreiddiol yn cael eu hanfon i'r rhif newydd yn awtomatig. Llongyfarchodd yr Is-Gadeirydd y Gwasanaeth am roi cyflenwad o'r cardiau i'r holl gynghorwyr yng Ngogledd Cymru.

vi. Hysbyswyd aelodau fod yr ymweliad â Choleg y Gwasanaeth Tân ym Moreton-in-Marsh wedi ei drefnu ar gyfer dydd Iau 7fed Mehefin 2007. Darllenwyd gorolwg byr o'r ymweliad a gofynnwyd i'r aelodau hysbysu'r Swyddog Cyswllt Aelodau os oeddynt am gyfranogi yn yr ymweliad.

vii. Estynnwyd llongyfarchiadau i'r holl bersonél oedd wedi cymryd rhan yn nhrefniadau Dawns Gwobrwyo'r Gymuned gynhaliwyd ar 2il Mawrth. Roedd y digwyddiad wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Diolchodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân i'r aelodau oedd, er heb allu mynychu, wedi cyfrannu tuag at y digwyddiad. Codwyd cyfanswm o tua £1715 i'r tair elusen ddewisol.

viii. Dyddiadau cyfarfodydd pwyllgorau yn y dyfodol: cynghorwyd aelodau y byddai'r Gweithgor Cynllun Lleihau Risg yn cynnal ei gyfarfod nesaf ddydd Llun 21ain Mai 2007 am 10.30 y bore. Byddai'r Panel Gweithredol yn cyfarfod am 2 y prynhawn yr un diwrnod. Byddai'r ddau gyfarfod yn cael eu cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Roedd cyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân ac Achub wedi ei drefnu ar gyfer 10.30 y bore ddydd Llun 18fed Mehefin 2007 ym Mhencadlys Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni.

Wrth gyhoeddi dyddiadau'r cyfarfodydd yn y dyfodol, gofynnodd y Cynghorydd W J Chorlton am roi ystyriaeth i beidio â threfnu holl gyfarfodydd Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg a Phanel Gweithredol ar ddydd Llun, oherwydd ymrwymiadau eraill, roedd yn cael trafferth mynychu cyfarfodydd ar ddydd Llun.

**4) Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub gynhaliwyd ar 18fed Rhagfyr 2007

***<u>Penderfynwyd::</u> - cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r trafodion.***

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:

ii. Cyfarfod y Panel Gweithredol gynhaliwyd ar 12fed Rhagfyr 2006
iii. y Pwyllgor Adolygu Uwch Gyflogau gynhaliwyd ar 13eg Rhagfyr 2006
iv. Cyfarfod y Panel Gweithredol gynhaliwyd ar 24ain Ionawr 2007

## 5) Materion yn Codi

Fe gododd y materion canlynol o'r cofnodion gyflwynwyd:

**Awdurdod Tân ac Achub, 18fed Rhagfyr 2006, tudalen 4, Eitem 5 – Materion yn Codi "Cyd-ymateb"** hysbyswyd yr aelodau gan y Prif Swyddog Tân fod y Llys Apêl wedi cyhoeddi ei ddyfarniad mewn perthynas â'r apêl gan Awdurdodau Tân ac Achub Swydd Nottingham a Swydd Lincoln yn erbyn dyfarniad yr Uchel Lys ar y mater o Gyd-ymateb a threfniadau cytundebol y diffoddwyr tân o dan Gytundeb Cyflog ac Amodau Gwasanaeth 2003. Yn wreiddiol, roedd yr Uchel Lys wedi ffafrio Undeb y Brigadau Tân (FBU); roedd y Llys Apêl wedi ategu penderfyniad yr Uchel Lys. Cynghorwyd yr aelodau nad oedd canlyniad yr achos yma yn effeithio'r sefyllfa yng Ngogledd Cymru, gan fod yr Awdurdod yn edrych am gytundebau gwirfoddol gyda phersonél ar gyfer darparu gwasanaethau cyd-ymateb. Cynghorodd y Prif Swyddog Tân ei fod wedi cael trafodaethau rhagarweiniol gyda'r FBU a roedd yn hyderus o ganlyniad cadarnhaol.

**Panel Gweithredol, 24ain Ionawr 2007, tudalen 12, Eitem 19 – Lleoliad yr Ail Ystafell Reoli:** mewn ymateb i gais am eglurhad wnaed gan y Cynghorydd W J Chorlton, fe gadarnhaodd y Clerc fod y Panel Gweithredol, o dan y pwerau ddirprwywyd iddo, wedi penderfynu adleoli Ystafell Reoli'r Gwasanaeth i Grud y Dderwen, Llanelwy. Wedyn, byddai'r ail ystafell reoli yn cael ei hadleoli o Gaernarfon i safle'r ystafell bresennol yn y Rhyl. Fe gadarnhaodd y Prif Swyddog Tân y byddai'n parhau i ddilyn yr opsiwn tri gwasanaeth fel y trefniant optimwm ond, yn y cyfamser, byddai ystafelloedd rheoli yr Heddlu a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael eu hadleoli yng Nghrud y Dderwen. Atgoffwyd aelodau gan y Prif Swyddog Tân a'r Clerc fod goblygiadau cost y broses adleoli a materion yn ymwneud â'r angen i adleoli'r ddwy ystafell reoli wedi eu manylu yn yr adroddiad a'r adroddiadau mewnol/adroddiadau ymgynghorol cysylltiedig anfonwyd at aelodau'r Panel Gweithredol cyn y cyfarfod. Roedd copïau o'r dogfennau hyn wedi eu hanfon at holl aelodau'r Awdurdod yn dilyn cyfarfod y Panel Gweithredol ynghyd â llythyr yn eu hysbysu o benderfyniad y Panel.

## 6) Adroddiad y Cadeirydd

Fe gyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn ystod y cyfarfod) oedd yn rhoi diweddariad byr i aelodau ar y cyfarfodydd a'r digwyddiadau fynychwyd ganddo ef, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd ac yn ei absenoldeb gan yr Is-Gadeirydd, ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod Tân ac Achub gynhaliwyd ar 18fed Rhagfyr 2006.

***<u>Penderfynwyd:</u> nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.***

**7) Alldro Dros Dro 2006/07**

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn cyflwyno ffigwr alldro dros dro amcangyfrifiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2006/07 i'r Aelodau. Cynghorwyd yr aelodau, yn wahanol i'r blynyddoedd blaenorol, oedd wedi cynhyrchu tanwario eithaf sylweddol, y disgwylid y byddai'r Awdurdod yn gorwario ei gyllid o oddeutu £143k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Manylodd y Trysorydd ar gynnwys ei adroddiad gan dynnu sylw at y meysydd hynny o fusnes y Gwasanaeth oedd wedi cyfrannu at y gorwario amcanol cyfan, cyn parhau i hysbysu aelodau na fyddai'n argymell i'r Awdurdod fynd at yr awdurdodau cyfansoddol am gyfraniadau atodol i wrthbwyso'r gorwariant. Adnabuwyd darpariaethau oedd yn cael eu dal gan yr Awdurdod ar hyn o bryd, oedd yn wreiddiol wedi eu clustnodi ar gyfer amryw newidiadau a chostau disgwyledig oedd unai heb ddigwydd neu fod mor uchel ag y disgwyliwyd yn wreiddiol i wrthbwyso'r gwariant. Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, fe gynghorodd y Trysorydd mai'r ffigyrau ddangoswyd ar gyfer y costau sefydlu a'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth i Adran Rheoli Cyfleusterau'r Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar y cyd, oedd cyfran yr Awdurdod o'r costau. Fe gadarnhaodd y Prif Swyddog Tân fod yr Awdurdod wedi cwrdd â chostau'r gwaith iechyd a diogelwch angenrheidiol, adnabuwyd yn hwyr yn 2006 gan yr Adran Rheoli Cyfleusterau, gan eu bod yn gysylltiedig ag eiddo'r Awdurdod. Mewn ateb i gwestiwn ynglyn â'r meysydd gwaith a ymgymerwyd gan staff dros dro, cynghorodd y swyddogion bod staff dros dro yn cael eu cyflogi i weithio cyfnodau absenoldebau salwch tymor hir ymysg staff cefnogol.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r gorwariant a ragwelir ar hyn o bryd ac y dylai'r gorwariant gael ei ariannu o'r arian oedd ar gael yn y darpariaethau fel a nodwyd ym mharagraff 10 o'r adroddiad.***

**8) Rheoli'r Trysorlys**

Yn unol â Chod Ymarfer Rheoli'r Trysorlys, fe gyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn cynghori'r Awdurdod o weithgaredd rheoli'r trysorlys mewn perthynas â benthyca tymor hir, buddsoddiadau ac o unrhyw newidiadau i restr yr Awdurdod o wrth-bartion.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad.***

**9) Trefniadau i drin â materion archwilio**

Fe gyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad ef a'r Clerc ar y cyd (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn gofyn i'r Awdurdod ymestyn pwerau'r Panel Gweithredol i gwmpasu trin materion archwilio penodol. Cyfeiriodd yr aelodau at eitem rhif 6 ar gofnodion cyfarfod y Panel Gweithredol ar 24ain Ionawr 2007 gan egluro fod yr adroddiad a gyflwynwyd iddynt yn deillio o argymhellion Asesiad Archwiliad Mewnol Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd y Swyddfa Archwilio o'r farn, fel

mater o lywodraethu corfforaethol da, y dylai'r Awdurdod sefydlu pwyllgor archwilio wedi ei gyfansoddi'n gywir. Cynghorwyd yr aelodau gan y Trysorydd yn ei farn ef, gan gymryd maint y sefydliad a'i gyllid i ystyriaeth, nad oedd angen sefydlu pwyllgar archwilio annibynnol gan ei fod yn gyfystyr â defnydd aneffeithiol o adnoddau. Roedd y Panel Gweithredol wedi cytuno â'r farn yma ac felly yn argymell i'r Awdurdod y dylai ymestyn cylch gwaith y Panel i gynnwys ymdrin â materion archwilio megis cymeradwyo'r strategaeth archwilio mewnol, y rhaglen flynyddol o archwilio allanol a mewnol a'r adroddiad archwilio blynyddol. Byddai cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon blynyddol, y Datganiad o Reolaeth Fewnol a derbyn y Llythyr Archwilio Blynyddol yn parhau o fewn cylch gwaith yr Awdurdod Tân ac Achub. Cynghorwyd yr aelodau gan y Clerc os fyddai'r Awdurdod yn penderfynu mabwysiadu argymhellion y Panel Gweithredol, byddai angen diwygio Cylch Gwaith y Panel. Gyda hyn mewn golwg, roedd ffurf o eiriad allai gael ei gynnwys yng Nghylch Gwaith y Panel wedi cael ei gynnwys yn argymhellion yr adroddiad ar gyfer ystyriaeth yr aelodau. Wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau, cynghorodd y Trysorydd y byddai'n iawn i'r Awdurdod ddirprwyo ei bwerau mewn perthynas â'r materion archwilio a restrid i'r Panel Gweithredol: roedd pwerau eisoes wedi eu dirprwyo i'r Panel mewn cysylltiad ag ymdrin â chynlluniau rheoleiddio a ffurfio ymatebion i ymgynghoriadau ar ran yr Awdurdod. Cadarnhaodd y Trysorydd fod gwasanaethau archwilio mewnol yn cael eu darparu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth Ariannol yr Awdurdod gyda'r Cyngor.

***<u>Penderfynwyd</u>: -cymeradwyo:***

- ***i*** ***dirprwyo ei bwerau mewn perthynas â rhai materion archwilio penodol i'r Panel Gweithredol; a***
- ***ii*** ***bod cylch gwaith y Panel yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn i adlewyrchu ei bwerau ychwanegol:***
  ***"2.5 Yn ychwanegol, bydd y Panel Gweithredol yn gweithredu fel pwyllgor archwilio'r Awdurdod Tân yn unol â chanllaw CIPFA "Audit Commitees: Practical Guidance for Local Authorities". Bydd hyn yn cynnwys cymeradwyo y strategaeth archwilio fewnol, y rhaglen flynyddol o archwilio mewnol ac allanol a'r adroddiad archwilio blynyddol".***

**10) Cynigion i'w cynnwys yng Nghynllun Lleihau Risg yr Awdurdod 2008/09**

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn hysbysu'r aelodau o argymhellion y Panel Gweithredol mewn perthynas â'r opsiynau y dylai'r Awdurdod eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu ei Gynllun Lleihau Risg ar gyfer 2008/09. Yn ychwanegol, roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth yr Awdurdod ar gyfer cynnwys yr argymhellion restrwyd yn y Cynllun Gweithredu drafft a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r aelodau yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod ym Mehefin i'w gymeradwyo at ddiben ymgynghoriad cyhoeddus. Manylodd y Prif Swyddog Tân ar gynnwys yr adroddiad ac eglurodd gan fod yr Awdurdod wedi cynhyrchu Cynllun Lleihau

Risg llawn a Chynllun Gweithredu ar gyfer 2007/08, y caniateid, os y dymunid, gynhyrchu cynllun gweithredu diwygiedig ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol. Atgoffwyd yr aelodau, cyn y gallai'r Awdurdod gymeradwyo'r Cynllun Gweithredu drafft at ddiben ymgynghoriad cyhoeddus, fod angen iddo drafod ei argymhellion yn anffurfiol gyda Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth y Cynulliad. Hysbyswyd yr aelodau gan swyddogion, yn yr ymgynghoriad diweddar ar Orchymyn Fframwaith Cenedlaethol (Cymru) (Diwygiadau) 2007, fod Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnig cynnwys amod ychwanegol i ail ymgynghori â'r Gweinidog yn dilyn cwblhau'r cyfnod ymgynghoriad cyhoeddus a chyn cymeradwyo'r Cynllun. Cynghorodd y Clerc yr aelodau fod y fath ddarpariaeth heb ei weld o'r blaen mewn llywodraeth lleol. Hefyd, hysbysodd yr Awdurdod fod gan ymgynghoriadau diweddar gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ddyddiau cau tynn at ddiben derbyn ymatebion, a hyd yn oed pan wnaeth yr Awdurdod ymateb a chodi materion perthnasol, ni weithredwyd ar yr rhain yn aml.

Fe gynghorodd y Prif Swyddog Tân yr aelodau fod y cynigion i'w cynnwys yn y Cynllun Gweithredu drafft yn cwmpasu gwireb y Gwasanaeth: "Atal, Amddiffyn, Ymateb". Nid oedd goblygiadau ariannol llawn y cynigion yn hysbys eto, ond byddai angen ariannu unrhyw gostau ychwanegol mewn un maes o arbedion effeithlonrwydd mewn meysydd eraill.

Croesawodd yr Is-Gadeirydd yr adroddiad a'r cynigion i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Drafft y Cynllun Lleihau Risg. Yn ei farn ef, byddai'r cynigion yma'n hanfodol i strategaeth yr Awdurdod i ostwng y nifer o farwolaethau tân yn yr ardal. Gwnaeth gais i gyrff cynrychioliadol y staff gael eu cynnwys yn y broses ymgynghori ar y cyfle cynharaf posib. Ar y mater o farwolaethau tân, fe hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr aelodau fod y Grŵp Gorchwyl, sefydlwyd ganddo wedi'r cynnydd yn y nifer o farwolaethau mewn tanau mewn cartrefi, yn y broses o derfynu eu hadroddiad. Ei fwriad oedd trefnu digwyddiad i aelodau lle byddai'r Grŵp Gorchwyl yn cyflwyno eu darganfyddiadau.

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

- ***i*** ***Cyd-fynd ag argymhelliad y Panel Gweithredol i gynnwys y cynigion restrwyd yn yr adroddiad yn y Cynllun Gweithredu drafft fydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mehefin am gymeradwyaeth i gael ei anfon am ymgynghoriad cyhoeddus; ac***
- ***ii*** ***yn y cyfamser, i fwrw ymlaen i gychwyn trafodaeth anffurfiol ar y cynigion gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn Llywodraeth y Cynulliad.***

**11) Gweithgareddau Diogelwch Tân Cymunedol**

Fe gyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ei adroddiad ac atodiadau (a ddosbarthwyd o flaen llaw), oedd, mewn ymateb i gais yr aelodau yng

nghyfarfod blaenorol yr Awdurdod, yn eu diweddaru ar y gweithgareddau Diogelwch Tân Cymunedol ymgymerwyd â hwy gan bob gorsaf dân. Yna, cyflwynodd Mr Mark Jones, Rheolwr Diogelwch Tân Cymunedol y Gwasanaeth i'r aelodau. Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, fe fanylodd Mr Jones ar gynnwys yr adroddiad yn cynnwys yr oriau o waith Diogelwch Tân Cymunedol roedd gorsafoedd tân Llawn Amser/Criw Dydd a'r System Dyletswydd Rhan Amser yn eu gwneud a goblygiadau ariannol y gwaith yma i'r Awdurdod. Eglurodd Mr Jones, yn dilyn llythyr y Prif Swyddog Tân, Hydref 2006, i'r holl bersonél, fod cynnydd amlwg yn y gwaith Diogelwch Tân Cymunedol. Tynnwyd sylw'r aelodau at Atodiadau D ac E yn yr adroddiad oedd yn manylu'r gwahanol fentrau Diogelwch Tân Cymunedol a diogelwch cymunedol yr oedd y Gwasanaeth yn cymryd rhan ynddynt mewn ymgais i gwrdd â'r agenda cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio ehangach.

Eglurodd Mr Jones, fod y Gwasanaeth, yn ei ymdrech i ostwng y nifer o farwolaethau tân mewn cartrefi newydd dderbyn nifer o unedau taenellu symudol. Roedd un o'r unedau wedi ei roi at ei gilydd yn yr ystafell gyfarfod er budd yr aelodau. Eglurodd mai'r bwriad oedd i'r mathau yma o unedau gael eu gosod yng nghartrefi pobl oedd yn agored i niwed; pobl oedd wedi eu hadnabod, oherwydd problemau symudedd neu iechyd meddyliol, i fod mewn mwy o beryg o niwed neu farwolaeth oherwydd tân. Byddai'r math yma o daenellwyr yn eu cartrefi yn rhoi mwy o siawns iddynt oroesi, oherwydd byddai'r taenellwr yn llethu'r tân, yn gostwng ei effaith a'r perygl iddo ledaenu. Byddai gan yr holl Reolwyr Diogelwch Sirol, lle bo'r angen, fynediad i'r unedau taenellu yma. Roedd swyddogion yn disgwyl gosod yr uned gyntaf mewn cartref person oedd yn agored i niwed cyn ddiwedd yr wythnos. Fe gafodd yr aelodau gyfle i weld effeithiolrwydd y math yma o uned mewn sefyllfa dân drwy wylio DVD a gynhyrchwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Glannau Merswy. Roedd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yn pwysleisio mai datrysiad dros dro oedd y taenellwyr symudol: taenellwyr domestig wedi eu cysylltu i system ddŵr y tŷ fyddai'r datrysiad tymor hir optimwm. Parhaodd i egluro, drwy drefniant ariannu ar y cyd, eu bod wedi gosod taenellwyr domestig mewn tŷ ar Ynys Môn yn ddiweddar.

Tra'n ymateb i gwestiynau'r aelodau, fe gynghorodd Rheolwr Diogelwch Tân Cymunedol yr Awdurdod fod yr unedau taenellu symudol wedi cael eu prynu gan gwmni masnachol am oddeutu £900 yr un, TAW yn ychwanegol. Parhaodd i egluro nad oedd yn siŵr os y gallai'r cyhoedd brynu'r unedau yn uniongyrchol gan y gwneuthurwyr neu os oedd awdurdodau lleol yn ymwybodol o'u bodolaeth. Hysbysodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr aelodau fod y Gwasanaeth yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddull o adnabod dinasyddion oedd yn agored i niwed ar draws Cymru. Ar y mater o adnabod dinasyddion oedd yn agored i niwed, fe gadarnhaodd y Prif Swyddog Tân a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân fod gwaith yn mynd rhagddo ar Brotocol Rhannu Data ar draws Gogledd Cymru rhwng awdurdodau lleol, gwasanaeth iechyd, gwasanaethau brys a'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, ymysg eraill. Hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr aelodau ei fod

wedi derbyn adborth gadarnhaol yn dilyn ei lythyr at holl Arweinyddion a Phrif Weithredwyr awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn gofyn am eu cydweithrediad yn ei ymgais i ostwng y nifer o farwolaethau tân. Roedd nifer o swyddogion wedi cael eu secondio i weithio am gyfnodau penodol o amser yn adrannau'r cyngor neu'r gwasanaeth iechyd. Roedd y secondiadau yma'n ffordd o adeiladu pontydd, dileu rhwystrau a chreu hinsawdd o gyd ddealltwriaeth a ffydd rhwng y Gwasanaeth a darparwyr eraill yn y sector cyhoeddus gyda golwg ar helpu ei gilydd i rannu gwybodaeth a gwella bywydau pobl.

Mewn ateb i gwestiwn ar osod systemau taenellu mewn ysgolion, hysbyswyd yr aelodau bod asesiad risg Cymru gyfan yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, a'r diben oedd adnabod yr ysgolion hynny oedd mewn mwyaf o beryg o losgi bwriadol. Yn diweddar, roedd Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi fod £4m ar gael o gyllid Diogelwch Tân Cymunedol i gynorthwyo gydag ariannu gosod taenellwyr mewn prosiectau ysgolion newydd a rhai oedd yn cael eu hadnewyddu. Gobeithid y byddai cyhoeddiad yn cael ei wneud, cyn yr etholiadau ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol, ynglyn ag arian ychwanegol tuag at osod taenellwyr mewn ysgolion o Gyllideb Addysg Llywodraeth y Cynulliad. Er fod £4m yn swm eithaf bychan o'i gymharu â'r gost o osod systemau taenellu ym mhob ysgol, roedd yn gyhoeddiad oedd i'w groesawu ac yn gam yn y cyfeiriad cywir. Roedd hefyd i'r gwrthwyneb i'r sefyllfa yn Lloegr.

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd P C Evans fe gynghorodd swyddogion fod yr holl gategorïau o orsafoedd tân yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau cymunedol gwahanol, er, ni fyddai dim o'r gorsafoedd yma ar gael i ddefnydd y gymuned i'r un graddau â'r Orsaf Dân Gymunedol fydd yn cael ei hadeiladu i bwrpas yn y Rhyl. Gofynnodd y Cynghorydd G Williams i'r Awdurdod wneud yn glir, y byddai cost i sefydliadau cymunedol os fyddent yn dymuno defnyddio'r gorsafoedd tân i'w gweithgareddau eu hunain. Roedd hefyd yn gofyn os oedd Sioe Deithiol Impact yn teithio drwy Ogledd Cymru, neu yn gwasanaethu ardal Wrecsam yn unig. Fe gynghorodd y Prif Swyddog Tân y Cynghorydd Williams fod y sioe deithiol wedi ei lleoli yn Wrecsam gan mai personél o Orsaf Dân Wrecsam oedd yn criwio'r sioe, ond ei fod wedi cael ei arddangos ar draws Gogledd Cymru gyfan. Roedd costau i'r fenter hon hefyd. Cynghorwyd yr aelodau ymhellach gan y Prif Swyddog Tân y byddai mwy o wybodaeth ar fentrau megis Sioe Deithiol Impact, yn cynnwys eu costau cysylltiedig, yn cael eu darparu drwy broses Cynllun Lleihau Risg. Datganodd y Prif Swyddog Tân ei bryder y gallai fod meysydd eraill o waith y Gwasanaeth yn dioddef oherwydd ei ymrwymiad mewn cymaint o fentrau, ymgyrchoedd a phartneriaethau eraill. Efallai, mewn ymdrech i fod yn bopeth i bawb fod y Gwasanaeth yn gwasgaru ei adnodau yn rhy denau er ei les ei hun yn y pendraw. Estynnodd y Cynghorydd S Frobisher ei longyfarchiadau i Dîm Diogelwch Sir Ddinbych am y digwyddiad diogelwch ar y ffordd ardderchog gynhaliwyd yng Ngholeg Llysfasi ar 9fed Mawrth 2007. Fe ofynnodd i lythyr gael ei anfon at y tîm i ddiolch iddynt am eu hymdrechion.

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd W J Chorlton, ynglyn â'r ffaith os y disgwylid i ddiffoddwyr tân ymgymryd â mwy o waith Diogelwch Tân Cymunedol, y byddai hyn yn effeithio ar eu ffitrwydd corfforol ar gyfer dyletswyddau gweithredol gan na fyddai ganddynt gymaint o amser i gynnal eu lefel o ffitrwydd tra ar ddyletswydd. Cwestiynodd y Prif Swyddog Tân os oedd hyn yn ddefnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau'r Awdurdod i ganiatáu personél i ymgymryd â hyfforddiant ffitrwydd corfforol yn ystod eu hamser ar ddyletswydd. Roedd y Cynghorydd Chorlton o'r farn fod gan yr Awdurdod ddyletswydd i gynnal lefelau ffitrwydd diffoddwyr tân neu fel arall, byddai'n cael effaith andwyol ar lefelau salwch y Gwasanaeth.

Ar y mater os oedd yr Awdurdod yn codi tâl am fynychu rhai digwyddiadau penodol, cynghorwyd yr aelodau, lle'r oedd yn cael codi tâl, roedd yr Awdurdod yn codi'r uchafswm ganiateid am y gwasanaethau ddarparwyd. Ond, hyd yn hyn, er lobio parhaol yr Awdurdod ar y mater o ganiatáu i awdurdodau tân ac achub godi tal am ymateb i larymau ffug oedd yn digwydd o hyd o systemau larymau tân awtomatig roedd Llywodraeth y Cynulliad wedi methu dod â deddfwriaeth ymlaen i'w galluogi hwy i wneud hyn. Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am yr adroddiad a'r cyflwyniad a:

***<u>Penderfynwyd</u>:- nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.***

**12) Newid Arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd, er mwyn cynnwys anghenion y broses Cynllun Lleihau Risg, yn cynnig diwygiad i Reolau Sefydlog yr Awdurdod mewn perthynas â dyddiad ei gyfarfod busnes yn yr hydref. Fe eglurodd fod yr adroddiad yn amlinellu cefndir y diwygiad arfaethedig, ac, yn unol â Rheol Sefydlog 2(2), os fyddai'r diwygiad yn cael ei symud a'i eilio yn y cyfarfod presennol, byddai'r drafodaeth ar y diwygiad yn parhau yn ohiriedig tan gyfarfod nesaf yr Awdurdod.

***<u>Penderfynwyd</u>:- nodi'r newid i Reol Sefydlog 4(2) ac y dylid cynnal trafodaeth ar y newid yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod ar 18fed Mehefin 2007.***

**13) Rheng i Rôl (Atodol)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn darparu gwybodaeth ychwanegol i'r aelodau, y gwnaethpwyd cais amdano, ar ymestyn trefniadau amddiffyn cyflog, yn dilyn adroddiad blaenorol ar y broses Rheng i Rôl ar 18fed Rhagfyr 2006. Fe eglurodd fod y cymathiadau lefel rheoli oedd yn weddill a'r apeliadau wedi eu cwblhau nawr a bod yr adroddiad yn manylu am y goblygiadau o ran cost i'r Awdurdod o ymestyn amddiffyn cyflog i bersonél y tu hwn i'r tair blynedd o ddyddiad y cymhathiad/apêl y cytunwyd arno drwy'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol (NJC). Cynghorwyd yr aelodau o'r goblygiadau

cyfreithiol ehangach o ymestyn yr amddiffyniad cyflog y tu hwnt i'r tair mlynedd a gytunwyd arno'n genedlaethol.

***<u>Penderfynwyd:</u>-***

- ***i nodi cynnwys yr adroddiad a'r goblygiadau ariannol;***
- ***ii nodi byddai unrhyw ddiogelu cyflogau am fwy na thair blynedd y tu allan i gytundeb y Cyd-Gyngor Cenedlaethol a arwyddwyd gan bob ochr berthnasol; a***
- ***iii fod yr Awdurdod yn talu diogeliadau am dair blynedd, yn unol â chytundeb y Cyd-Gyngor Cenedlaethol.***

**14) Cynllun Anabledd Drafft**

Fe gyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ei adroddiad ar Gynllun Cydraddoldeb Anabledd 2006/09 Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (a ddosbarthwyd o flaen llaw). Fe eglurodd, yn unol â chyrff cyhoeddus eraill, fod gan yr Awdurdod ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb anabledd a chyhoeddi ei swyddogaethau a pholisïau oedd yn berthnasol â'r ddyletswydd yma. Roedd y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd Drafft, yn debyg i'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol yr oedd y Panel Gweithredol wedi ei gymeradwyo ar 24ain Ionawr 2007, yn un o nifer o Gynlluniau yr oedd gofyn i'r Awdurdod yn ôl deddfwriaeth eu cymeradwyo a'u cyhoeddi. Bwriad y Gwasanaeth, pan fo'r holl Gynlluniau cyfredol yn dod i ben, oedd ymgorffori'r holl Gynlluniau mewn un ddogfen oedd yn hawddach i'r staff a'r cyhoedd ei ddefnyddio.

Gofynnodd y Cynghorydd M Griffith, os, gan nad oedd hi a nifer o aelodau eraill wedi derbyn y Cynllun drafft mewn pryd i ddarllen trwyddo cyn y cyfarfod, a ellid gohirio'r penderfyniad i gymeradwyo'r Cynllun nes cyfarfod nesaf yr Awdurdod. Cynghorodd y Clerc y Cynghorydd Griffith fod disgwyl i'r holl awdurdodau cyhoeddus gymeradwyo a mabwysiadu eu Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd erbyn Rhagfyr 2006, er nad oedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yr unig un nad oedd wedi cyflawni hyn cyn y dyddiad cau statudol. Ei argymhelliad ef fyddai i'r Awdurdod gymeradwyo, mewn egwyddor, y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol drafft, ac os oedd gan yr aelodau unrhyw gwestiynau roeddynt yn dymuno eu codi y gellid gwneud hynny yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod, gydag unrhyw ddiwygiadau dilynol yn cael eu hymgorffori i'r Cynllun yr adeg hynny.

***<u>Penderfynwyd:</u>- mewn egwyddor, cymeradwyo a mabwysiadu'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd 2006/09 ac y dylid trafod unrhyw gwestiynau oedd yr aelodau'n dymuno eu codi, neu unrhyw ddiwygiadau, yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod ar 18fed Mehefin 2007.***

## 15) Penodi Aelodau Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau

Fe gyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn gofyn i'r Awdurdod ystyried y nifer o aelodau annibynnol ar y Pwyllgor Safonau a threfniadau i lenwi unrhyw swyddi gwag. Aeth i fanylder am gynnwys ei adroddiad gan hysbysu'r aelodau fod cyfnod swydd un o'r aelodau annibynnol ar fin dod i ben ym Medi 2007. Yn dilyn newid diweddar mewn deddfwriaeth, caniateid i awdurdodau ailbenodi aelodau annibynnol am dymor pellach o hyd at bedair blynedd. Os fyddai aelodau presennol yn cael eu hailbenodi, nid oedd gofyn i'r Awdurdod hysbysebu'r swydd wag. Tynnodd y Clerc sylw'r aelodau i baragraff 4 ei adroddiad oedd yn cynghori'r Awdurdod o farn y Pwyllgor Safonau am ailbenodi'r aelod annibynnol oedd ei dymor yn dod i ben ac o'i ddymuniad i weld maint y Pwyllgor yn cynyddu o 5 i 6 aelod, gyda 4 ohonynt yn aelodau annibynnol. Mewn ymateb i gwestiwn, cynghorodd y Clerc mai'r rheswm dros ofyn am gynyddu'r nifer o aelodau i 6 oedd ar gyfer dibenion cworwm. Yn bresennol, gyda 5 aelod, roedd gan Bwyllgor Safonau'r Awdurdod y nifer lleiaf o aelodau oedd yn cael ei ganiatáu ac os oedd mwy nag un aelod annibynnol yn methu mynychu, ni ellid cwrdd ag anghenion cworwm. Eglurodd y Clerc, gan gymryd i ystyriaeth y byddai lwfans cyfetholedig ar gael yn fuan ar gyfer aelodau annibynnol, a chostau teithio'n daladwy, byddai cynyddu'r nifer o aelodau i 6 â goblygiadau cost bychan i'r Awdurdod.

***Penderfynwyd:*** ***-***

- ***i*** ***ailbenodi Mr Simon Fysh fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am dymor o bedair blynedd o fis Medi 2007;***
- ***ii*** ***y dylai'r Pwyllgor Safonau gael pedwar aelod annibynnol ac y dylid hysbysebu'r swydd wag;***
- ***iii*** ***y dylid dirprwyo penodi aelod lleyg i'r panel ymgynghorol i'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Clerc; a***
- ***iv*** ***phenodi y Cynghorwyr P C Evans YH, W J Chorlton, N S Colbourne a W T Owen i wasanaethu ar y panel ymgynghorol.***

## 16) Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau

Fe gyflwynodd y Clerc drydydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn manylu ar weithgareddau'r Pwyllgor yn ystod blwyddyn 2006/07, ac argymhelliad y Pwyllgor y dylai holl aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub a'r Pwyllgor Safonau dderbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad diwygiedig pan ddeuai i rym.

***Penderfynwyd:*** ***- nodi cynnwys yr adroddiad a'r hyfforddiant fydd ei angen ar y cod ymddygiad pan ddaw i rym.***

## 17) Breinlen ar Gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau yng Nghymru

Cyflwynodd y Swyddog Cyswllt Aelodau ei hadroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn gofyn i'r Awdurdod sefydlu gweithgor ymroddedig i fod yn gyfrifol am adnabod anghenion datblygu a chefnogi aelodau ac yn ddilynol, i symud cais yr Awdurdod i dderbyn achrediad o dan y Freinlen ar Gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau yng Nghymru ymlaen. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried dichonolrwydd cyfuno cylch gwaith y Gweithgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau gyda'r Gweithgor Hyrwyddwyr Diogelwch Tân Cymunedol a sefydlwyd yn ddiweddar. Manylodd y Swyddog Cyswllt Aelodau ar y cefndir i'r Freinlen a phenderfyniad yr Awdurdod i geisio achrediad o dan y Freinlen maes o law. Fe eglurodd, cyn i'r Awdurdod allu gwneud cais am gydnabyddiaeth y Freinlen, fod rhaid iddo sefydlu Gweithgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau a fyddai'n gyfrifol am noddi y rhaglen a'r strategaeth cynorthwyo a datblygu aelodau. Aeth ymlaen i egluro, gan fod yr Awdurdod yn ddiweddar wedi sefydlu Gweithgor Hyrwyddwyr Diogelwch Tân Cymunedol, y gellid ymestyn cylch gwaith y Grŵp hwn i gynnwys cynorthwyo a datblygu aelodau. Byddai buddion y dull hwn yn ddeublyg: yn ychwanegol i arddangos defnydd effeithion o adnoddau, tra'n hyrwyddo materion diogelwch cymunedol a chreu cysylltiadau cryfach rhwng adrannau llywodraeth leol, y cyhoedd a'r Gwasanaeth, byddai aelodau'r Gweithgor Hyrwyddo Diogelwch Tân Cymunedol mewn safle ddelfrydol i adnabod anghenion cynorthwyo a datblygu aelodau.

Roedd y Cynghorydd P C Evans o'r farn fod cyfuno rolau'r Gweithgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau gyda'r Gweithgor Hyrwyddwyr Diogelwch Tân Cymunedol yn cyfyngu rôl aelodau cyffredin yr Awdurdod. Yn bersonol, roedd yn cefnogi sefydlu Gweithgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau ar wahân. Roedd nifer o aelodau yn cytuno gyda'r farn hon. Fe gynigiodd y Cynghorydd Evans welliant i'r ail argymhelliad restrwyd yn yr adroddiad: y dylai'r Awdurdod sefydlu Gweithgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau ar wahân, eilwyd y gwelliant a phan bleidleiswyd, fe'i trechwyd gan fwyafrif.

***<u>Penderfynwyd:</u>-***

- ***i cymeradwyo sefydlu Gweithgor i hyrwyddo datblygu a chynorthwyo aelodau;***
- ***ii cymeradwyo cyfuno cyfrifoldeb y Gweithgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau gydag un y Gweithgor Hyrwyddwyr Diogelwch Tân Cymunedol; a***
- ***iii fod y Gweithgor yn cael y dasg o asesu safle'r Awdurdod mewn perthynas â gwneud cais am statws cydnabyddiaeth dan y Freinlen a, maes o law, gyda llunio cais yr Awdurdod ar gyfer ei gymeradwyo i'w gyflwyno.***

## 18) Er Gwybodaeth

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân rifyn diweddaraf y cylchgrawn 'Er Gwybodaeth' i'r Awdurdod.

***<u>Penderfynwyd:</u>- derbyn y cyhoeddiad***

**19) Materion Brys**

Dim.

Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau yr argymhellid trafod yr eitem fusnes oedd yn weddill ar agenda'r cyfarfod heb y cyhoedd na'r Wasg yn bresennol.

***<u>Penderfynwyd:</u> - yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol,1972 fod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem busnes canlynol oherwydd roedd yn debygol byddai gwybodaeth wedi'i eithrio yn cael ei ddatguddio iddynt fel a ddiffinnir ym Mharagraffau 1, 8, 9 a 10 o Rhan I o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.***

**<u>RHAN II</u>**

**20) Adolygiad o'r Ymarferwyr Diogelwch Tân Rhan Amser a'r Rhai sy'n Gweithio'r System Ddyletswydd Rhan Amser**

Fe gyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn gofyn i'r Awdurdod gadarnhau argymhelliad y Panel Gweithredol mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig yn y dull mae'r Gwasanaeth yn cyflwyno ei weithgareddau Diogelwch Tân Cymunedol gan bersonél ar y System Dyletswydd Rhan Amser yn gweithio fel Ymarferwyr Diogelwch Tân Rhan Amser. Eglurodd fod yr adroddiad yn manylu y cefndir a'r rhesymau oedd wedi arwain swyddogion i ddod i'r casgliad fod angen newid yn niwylliant a'r dull yr oedd yr elfen benodol yma o waith y Gwasanaeth yn cael ei gyflwyno os oedd yr Awdurdod yn mynd i fod yn llwyddiannus wrth ostwng y nifer o farwolaethau tân yn yr ardal. Roedd yr adroddiad yn manylu'r goblygiadau ariannol o fabwysiadu newid yn y dull o gyflwyniad. Pwysleisiodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau mai amcan y newidiadau arfaethedig yn y dull o gyflwyno oedd i gynyddu gallu'r Gwasanaeth i gyflwyno ei raglen Diogelwch Tân Cymunedol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd rhaid i'r Awdurdod ddefnyddio ei adnoddau yn y modd mwyaf cost effeithiol ac effeithlon.

12.45pm Gadawodd y Cynghorydd G O Williams y cyfarfod yn y man hwn.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, cynghorodd swyddogion fod nifer o opsiynau wedi cael eu fforio ond, yn dilyn derbyn cyngor cyfreithiol gan yr arbenigwyr cyfraith cyflogaeth, Eversheds, roedd yr opsiwn gyflwynwyd i aelodau wedi ei adnabod fel y datrysiad optimwm. Er nad oedd Undeb y Brigadau Tân yn gyfrin i'r adroddiad oedd gan yr aelodau, roedd cynrychiolwyr yr Undeb yn ymwybodol o'r argymhellion am newid yn y dull o gyflwyno'r gwasanaeth. Byddai'r pum swydd newydd, fyddai â'r cyfrifoldeb am gyflwyno gwaith diogelwch tân cymunedol ar draws Gogledd Cymru, yn cael eu

hysbysebu yn y wasg leol.  Yn dilyn trafodaeth fanwl ar y cynigion gyflwynwyd iddynt.

***Penderfynwyd:* -**

***i nodi cynnwys yr adroddiad;***
***ii cydnabod fod Diogelwch Tân Cymunedol yn gyfrifoldeb craidd holl Ddiffoddwyr Tân***
***iii cadarnhau argymhelliad y Panel Gweithredol;***
***iv cytuno fod yr iawndal a delir wrth ddiddymu cytundebau penodol personél dyletswydd rhan amser mewn perthynas â gwaith Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref yn cael ei gyfrifo ar sail cyfrifiannell dileu swydd statudol yr Adran Masnach a Diwydiant a***
***v nodi y bydd pum personél llawn amser yn cael eu cyflogi dan Amodau Gwasanaeth y Llyfr Gwyrdd i ymgymryd ag Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref.***

Cyn i'r cyfarfod ddod i ben, gofynnodd y Cynghorydd S Frobisher gofnodi ei gwerthfawrogiad i'r holl bersonél a fynychodd y tân diweddar yng Ngherddi Gŵyl Ffrith ym Mhrestatyn.  Nododd y Cynghorydd Frobisher fod gweithrediad cyflym y Gwasanaeth wedi golygu fod y tân wedi cael ei gynnwys gan gyfyngu'r difrod.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55 y prynhawn.